OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Medi 2018* |
| *Yn dod i rym* | *24 Medi 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 24 Medi 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2018 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf to Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 September 2018* |
| *Coming into force* | *24 September 2018* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 Motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the motorway.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf to Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 24 September 2018.

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the motorway" ("*y draffordd*") means the M4 London to South Wales Motorway;

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 24 Medi 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" (*"the motorway"*) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Y Pîl), Pen-y-bont ar Ogwr i Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018(**2**) wedi ei ddirymu.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Medi 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 2018/188 (Cy. 39)

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 24 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Revocation**

**5.** The M4 Motorway (Junction 37 (Pyle), Bridgend to Junction 47 (Penllergaer), Swansea) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018(**2**) is revoked.

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 20 September 2018

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

(**2**) S.I. 2018/188 (W.39)

## YR ATODLEN

Y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain rhwng y cyffyrdd hyn.

## SCHEDULE

The lengths of the westbound and eastbound carriageways of the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire including all westbound and eastbound exit and entry slip roads between these junctions.

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 34 (MEISGYN), RHONDDA CYNON TAF I GYFFORDD 49 (PONT ABRAHAM), SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar ddarnau penodedig o'r M4 o fewn y darnau cyfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan fydd angen gwneud gwaith mewn safle penodol. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 24 Medi 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n bosibl, bydd hysbysiad ynghylch gwaharddiad yn cael ei arddangos tua wythnos cyn cau darn penodedig o'r draffordd. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos hefyd cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

Y darnau o'r cerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 34 (MISKIN), RHONDDA CYNON TAF TO JUNCTION 49 (PONT ABRAHAM), CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on specified lengths of the M4 within the overall lengths described in the Schedule to this Notice when work is required at a particular site. The alternative route arrangements are also described in the Schedule.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 24 September 2018 and operate intermittently overnight (20:00 hours – 06:00 hours) for a maximum period of 18 months. Whenever possible, notice of a prohibition will be displayed approximately one week before the closure of a specified length of the motorway. Advance notice of any changes to times and dates will also be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**
**Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

The lengths of the westbound and eastbound carriageways of the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire including all westbound and eastbound exit and entry slip roads

rhwng y cyffyrdd hyn.

**Llwybrau eraill**

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r M4 ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar y brif M4 (y ddwy gerbytffordd), yr A4232, yr A48, yr A473, yr A4229, yr A4241, y B4286, yr A4107, yr A474, yr A465, yr A4230, yr A4067, yr A483, yr A484 a'r A4138, fel y bo'n briodol.

between these junctions.

**Alternative route arrangements**

The alternative routes will be indicated with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the M4 is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the main M4 (both carriageways), A4232, A48, A473, A4229, A4241, B4286, A4107, A474, A465, A4230, A4067, A483, A484 and A4138, as appropriate.